CYFARFOD	**Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**
DYDDIAD	**10 Mawrth, 2015**
PWNC	**Gwe-ddarlledu**
PWRPAS	**Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf**
AWDUR	**Geraint George** **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**

1. Mae System Gwe-ddarlledu y Cyngor bellach wedi ei osod ac rydym wedi dechrau gwe-ddarlledu ers Ionawr 2015.

2. Er mwyn paratoi at y gwe-ddarlledu cynhaliwyd dwy sesiwn Hyfforddiant:

   - 26 Tachwedd 2014, cynhaliwyd sesiwn hyfforddi y gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor iddo. Roedd 41 yn bresennol yn cynnwys rhai aelodau o'r Pwyllgor Safonau.
   - 12 Ionawr 2015, Hyfforddiant gwe ddarlledu ar gyfer Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion

3. Yn y sesiynau esboniwyd y rhesymeg dros gyflwyno'r system, adnabuwyd rhai o'r risgiau sydd ynghlwm â'i weithredu, trafodwyd canllawiau byr ar gyfer ymddwyn a rhai posibiliadau eraill o ran newid trefniadau cyfarfodydd y Cyngor.

4. Bellach, mae'r Cyngor wedi gwe-ddarlledu 5 o'i gyfarfodydd, fel a ganlyn:

Dyddiad	Pwyllgor	Ffigurau Gwylio	
12/01/2015	Cynllunio	236	
13/01/2015	Cabinet y Cyngor	105	
12/2/2015	Pwyllgor Craffu Gwasanaethau	49	*
19/2/2015	Cabinet y Cyngor	51	*
24/2/2015	Pwyllgor Craffu Cymunedau	21	*

5. Gellir gwylio'r gwe-ddarllediad yn fyw ar safle we'r Cyngor yn ystod y cyfarfod, neu bydd ar gael yn yr archif o fewn 48 awr i'r darllediad byw, am gyfnod o hyd at 6 mis. Dyma'r cyfeiriad ar gyfer gwylio:

   https://www.gwynedd.gov.uk/cy/Cyngor/Cynghorwyr-a-phwyllgorau/Cynghorwyr-a-phwyllgorau.aspx

6. Noder for y rhelyw o'r gwylio yn digwydd trwy'r safle archif yn hytrach na gwylio darllediadau byw. Felly, er bod y ffigurau yn gywir ar yr amser cyhoeddi yr adroddiad, mae'r ffigurau nodwyd gyda * yn debygol o gynyddu.

7. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, mae rhai gwersi wedi dod i'r amlwg yn barod, gyda rhai materion technegol wedi codi ac wedi eu datrys, a rhai materion gweithdrefn angen eu haddasu ymhellach gan swyddogion. Amgaeir y canllawiau byr ar gyfer yr Aelodau er mwyn eu hatgoffa o'r ystyriaethau y dylid eu cymeryd wrth i Wynedd weddarlledu Cyfarfodydd.

8. Mae'n bwysig cofio mai 60 awr o amser darlledu sydd gan y Cyngor yn ol y cytundeb presenol. Mae'r pwyllgorau a nodir isod wedi eu hadnabod ar gyfer eu gweddarlledu yn y chwarter nesaf:

05/03/2015	Cyngor Llawn
23/03/2015	Pwyllgor Cynllunio
16/04/2015	Pwyllgor Craffu Gwasanaethau
14/05/2015	Cyngor Llawn

9. Gwahoddir unrhyw sylwadau pellach gan aelodau'r Pwyllgor ar y datblygiadau hyd yma.

ATODIAD A

GWE-DDARLLEDU – RHAI CWESTIYNAU I I AELODAU

A. Paratoi ar gyfer y cyfarfod

- A wyf wedi paratoi ar gyfer y cyfarfod ac yn glir am y pwyntiau / cwestiynau yr wyf am eu codi?
- A wyf wedi meddwl os yw fy ymddangosiad yn cyfleu delwedd briodol ac addas?
- A wyf wedi cofio diffodd fy ffon symudol cyn i'r cyfarfod ddechrau i osgoi ymyrryd â'r signal?

B. Yn y cyfarfod

1. Cais i siarad:-

Dylwn gofio bod y drefn yn y ddwy siambr yn wahanol:-

- Yn Siambr Dafydd Orwig, rwyf yn gwagu'r botwm "cais i siarad" a wedyn yn disgwyl am wahoddiad y Cadeirydd i gyfrannu
- Yn Siambr Hywel Dda, rwy'n ceisio tynnu sylw'r Cadeirydd trwy godi fy llaw, yn disgwyl am wahoddiad y Cadeirydd i gyfrannu, yn troi fy meicroffon ymlaen i siarad ar ôl derbyn gwahoddiad i siarad a wedyn yn ei ddiffodd ar ôl gorffen

DS Bydd sedd gosod ar fy nghyfer yn Siambr Hywel Dda ond gallaf symud yn Siambr Dafydd Orwig os wyf yn mynd â fy ngherdyn gyda mi.

2. Wrth siarad

- A wyf yn siarad bellter rhesymol oddi wrth y meicroffon? (ddim yn rhy agos, ddim yn rhy bell)
- A yw tôn fy llais yn ddiddorol a rhesymol?
- A wyf yn ail-adrodd yr hyn y mae rhywun arall wedi gwneud yn barod?
- A wyf yn mynd yn rhy emosiynol am fy mod yn teimlo'n gryf ar fater a bod peryg y gwnaf ddweud rhywbeth y bydd yn edifar gennyf amdano?
- A wyf yn siarad yn eglur ac ar y cyflymder iawn heb ruthro'n ormodol fel bod rhywun sy'n gwrando (yn cynnwys cyfieithydd) yn cael trafferth fy nilyn?

3. Wrth wrando

- A wyf yn dangos parch at siaradwyr eraill, yn arbennig felly rhai sydd â safbwynt wahanol?
- A wyf yn gwrando'n iawn ac yn talu sylw i'r hyn sy'n digwydd yn yr ystafell gyfarfod, yn arbennig felly os wyf o fewn "shot" camera'r siaradwr ar y pryd?
- A wyf yn cael fy ngweld yn gwrando neu a wyf yn sibrwd gyda rhywun ar fater arall neu'n mynd allan am baned neu sgwrs?
- A wyf yn "chwarae" gydag unrhyw beth (llechen, biro neu declyn arall) allai dynnu sylw?

C. Ar ôl y cyfarfod

- A wyf yn medru dysgu unrhyw beth am fy nelwedd gyhoeddus wrth ail-wylio'r gwe-ddarllediad?
- A wyf yn medru defnyddio'r gwe-ddarllediad i ledaenu gwybodaeth am yr hyn sy'n cael ei drafod yn y Cyngor?